***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 255

# Gorchymyn Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016

**Telerau penodi a dethol**

**7.**—(1) Bydd cadeirydd y Panel a'r aelodau annibynnol—

(a) yn dal y swyddi hynny am gyfnod o bedair blynedd o'r dyddiad y'u penodir gan Weinidogion Cymru; a

(b) ym mhob cyswllt arall yn dal ac yn gadael eu swyddi yn ddarostyngedig i'r Gorchymyn hwn ac yn unol â thelerau eu penodi.

(2) Bydd yr aelodau cynrychioliadol—

(a) yn dal y swyddi hynny am gyfnod o bedair blynedd o'r dyddiad y'u detholir gan eu priod sefydliadau; a

(b) ym mhob cyswllt arall yn dal ac yn gadael eu swyddi yn ddarostyngedig i'r Gorchymyn hwn ac yn unol â thelerau eu penodi.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy hysbysiad ysgrifenedig, ddiswyddo unrhyw aelod o'r Panel, gan gynnwys cadeirydd y Panel, os ydynt wedi eu bodloni bod yr aelod o'r Panel—

(a) heb esgus rhesymol, heb gydymffurfio â'r telerau penodi neu'r telerau dethol; neu

(b) yn methu â chyflawni ei swyddogaethau neu'n an-ffit i gyflawni ei swyddogaethau neu fel arall yn anaddas i barhau yn aelod o'r Panel.

(4) Mae diswyddo aelod o'r Panel gan Weinidogion Cymru yn cymryd effaith ar unwaith, oni nodir fel arall yn yr hysbysiad ysgrifenedig a roddir gan Weinidogion Cymru.

(5) Bydd aelod o'r Panel, ar ôl peidio â dal ei swydd ar y Panel, yn gymwys i'w ail-benodi neu ei ail-ddethol yn ddarostyngedig i baragraff (6).

(6) Ni chaiff person fod yn aelod o'r Panel—

(a) am gyfnod sy'n hwy nag wyth mlynedd, pa un a yw'r cyfnod hwnnw yn un parhaus ai peidio; neu

(b) os yw'r person hwnnw wedi ei ddiswyddo o fod yn aelod o'r Panel gan Weinidogion Cymru yn unol â pharagraff (3).